Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Maesincla**

**PLAS MAESINCLA**
**CAERNARFON**
**LL55 1DB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/01/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Plas Maesincla wedi'i leoli ar gyrion ystad breswyl yng Nghaernarfon. Cyngor Gwynedd sy'n berchen ar y gwasanaeth ac mae wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu llety a gofal personol i 23 o oedolion sydd ag anghenion gofal yn ymwneud â dementia ac eiddilwch meddwl. Aled Davies yw'r unigolyn cyfrifol enwebedig ar ran y darparwyr cofrestredig ac mae rheolwr wedi'i gyflogi sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae Plas Maesincla yn darparu amgylchedd gofalgar a chartrefol i'r bobl sy'n byw yno. Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion unigol y bobl ac yn darparu gofal â pharch ac urddas. Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod yn hapus â'r gofal a'r gwasanaethau yn y cartref. Mae gweithgareddau ar gael i'r bobl gan ddibynnu ar eu galluoedd a'u dewis i gymryd rhan. Mae'r tîm o staff yn sefydlog ac mae trefniadau parhaus ar waith i recriwtio staff newydd. Mae trefniadau monitro effeithiol ar waith sy'n asesu ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn gyson.  Gwelsom fod rhai ardaloedd wedi cael eu creu er mwyn gwella bywydau'r bobl sy'n byw gyda dementia. Byddai'n werth adnewyddu rhai ardaloedd o'r cartref.

### 2. Gwelliannau

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Caiff unrhyw welliannau eu hystyried fel rhan o'r arolygiad nesaf.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth a'r meysydd lle nad yw'r darparwyr yn bodloni gofynion cyfreithiol.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cynlluniau personol.
- Amseroedd bwyd a defnydd o'r staff.
- Materion iechyd a diogelwch.
- Gwaith cynnal a chadw cyffredinol.
- Adnewyddu hyfforddiant gorfodol.
- Y canllaw ysgrifenedig.
- Goruchwyliaeth staff ac arfarniadau blynyddol.

## 1. Llesiant

Gall y bobl reoli digwyddiadau o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y Datganiad o Ddiben a'r canllaw ysgrifenedig yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys dewis iaith. Gwelsom fod y bobl yn cael gwasanaeth yn eu dewis iaith. Roedd hyfforddiant ar gael i'r staff nad oeddent yn siarad Cymraeg. Roedd y bobl yn gallu dewis ble i dreulio eu hamser, boed yn eu hystafelloedd gwely eu hunain, mewn ardaloedd cymunedol, neu mewn ardaloedd eraill yn y cartref. Gwelsom fod arweinwyr y gwasanaeth yn hyrwyddo pwysigrwydd deall anghenion gofal pob unigolyn. Caiff hunaniaeth a diwylliant unigol y bobl eu cydnabod a chânt gymorth gyda'u llesiant corfforol ac emosiynol.

Mae'r bobl yn cael eu galluogi i gynnal eu llesiant. Gwelsom agwedd ofalgar a chadarnhaol gan y staff tuag at y bobl a'u perthnasau. Roedd y tîm o staff yn cefnogi'r bobl i wneud pethau a oedd yn bwysig iddynt, ac yn eu helpu gydag anghenion gofal personol â pharch ac urddas. Gwelsom fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r bobl i'w cadw'n brysur, ac roedd y staff yn rhagweithiol wrth gefnogi unigolion. Dywedodd perthnasau wrthym, "*Communication is good. They let us know what's happening. They let us know if anything unusual has happened. They phoned us in the middle of the night when she was ill and we could go to her in hospital. All the staff know if something has changed"* a *"They don't just care for mum they care for all of us".* Roedd anghenion iechyd y bobl yn cael eu diwallu yn unol â'u cynlluniau personol ac roedd cofnodion ar gael i ddangos bod y bobl yn cael cymorth i gael gafael ar sylw meddygol yn ôl yr angen. Mae'r bobl yn cael eu trin â pharch ac urddas, ac yn cael eu cefnogi i fod yn iach ac egnïol. Mae angen gwneud gwelliannau i'r cynlluniau personol er mwyn rhoi gwybodaeth fanwl i'r staff am hoffterau'r bobl mewn perthynas â'u llesiant.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel. Mae hyfforddiant staff, polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Roedd hyfforddiant ar ddiogelu yn cael ei roi i'r staff. Roedd y staff yn cael hyfforddiant ar ddementia er mwyn iddynt allu deall anghenion pobl sy'n byw gyda dementia. Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd gorau'r bobl sydd heb alluedd, a hynny o fewn y broses gyfreithiol gywir. Gwelsom gofnodion o ddilysu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn sicrhau bod y staff yn ddiogel i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Roedd gofyn i ymwelwyr ddweud pwy ydynt cyn mynd i mewn i'r cartref. Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae llesiant y bobl yn cael ei wella gan eu bod yn cael gofal mewn amgylchedd cyfforddus a diogel sy'n diwallu eu hanghenion. Gwelsom fod y bobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd mawr a chartrefol sydd wedi'i bersonoli. Roedd amrywiaeth o gymhorthion a chyfarpar ar gael i hybu annibyniaeth. Gwelsom amrywiaeth o ardaloedd lle y gallai'r bobl ddewis treulio eu diwrnod, yng nghwmni eraill neu yn eu hystafelloedd eu hunain os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Mae ystafell weithgareddau/bwyta ddynodedig yn y cartref o'r enw Bwthyn lle roedd y bobl yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chael eu prydau, petaent yn dewis peidio â bwyta yn yr ystafell fwyta fawr. Roedd ardal ddiogel yn yr awyr agored yn rhoi cyfleoedd i'r bobl gerdded o gwmpas y tir yn ddiogel. Byddai'n fuddiol cynnal archwiliad o'r amgylchedd er mwyn nodi ardaloedd lle

y gellid gwneud gwelliannau er mwyn gwella ansawdd bywyd a llesiant y bobl sy'n byw yn y cartref. Ar y cyfan, mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n eu cefnogi i gyflawni eu llesiant.

## 2. Gofal a Chymorth

Nid yw'r bobl bob amser yn teimlo'n hyderus bod gan ddarparwyr y gwasanaeth gynllun cywir a chyfredol ynghylch sut y darperir gofal iddynt er mwyn diwallu eu hanghenion. Roedd systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion y bobl cyn iddynt symud i mewn i'r cartref. Roedd y rheolwr a/neu'r dirprwy reolwr yn ymweld â'r bobl er mwyn cwblhau asesiad cyn-derbyn cyn cynnig lleoliad i unigolyn yn y cartref. Roedd hyn yn sail ar gyfer y gofal ac roedd yr asesiadau'n parhau yn syth ar ôl derbyn yr unigolyn. Gwelsom fod cynlluniau personol ar waith ond, nid oedd rhywfaint o'r ddogfennaeth wedi'i chwblhau gan fod y gwasanaeth yn aros am wybodaeth gan deuluoedd. Drwy arsylwadau, gwelsom fod y staff yn ymwybodol o anghenion a dyheadau unigol y bobl roeddent yn gofalu amdanynt. Nid oedd rhai o'r cynlluniau cymorth personol a welwyd yn cynnwys y wybodaeth hon. Dywedodd y rheolwr wrthym fod gofyn i'r perthnasau nodi hanes a chefndir eu hanwyliaid ar ôl iddynt gael eu derbyn, yn cynnwys hoffterau/cas bethau, digwyddiadau bywyd sylweddol a diddordebau. Dywedodd fod anawsterau yn codi wrth geisio cael y wybodaeth hon gan rai perthnasau ac nad oes gan rai o'r bobl sy'n byw yn y cartref berthnasau. Dylid datblygu cynlluniau personol yn hytrach na dibynnu ar deulu. Cymraeg oedd mamiaith llawer o'r bobl a'r staff a chlywsom y staff yn siarad â'r bobl yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda'r gwasanaeth yn sicrhau bod staff a oedd yn siarad Cymraeg ar y rota ddyddiol. Cyfeiriwyd at y cofnodion Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn y cynlluniau personol. Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn broses sy'n sicrhau bod penderfyniadau a wneir er budd gorau'r bobl sydd heb alluedd, yn dilyn y broses gyfreithiol gywir. Roedd hyn yn dangos bod y staff yn ymwybodol o anghenion unigol y preswylwyr; fodd bynnag, gellid gwneud gwelliannau i'r ddogfennaeth.

Caiff yr unigolion gymorth i gadw'n iach, i fwyta deiet cytbwys ac i yfed digon o hylif. Roedd prydau'n cael eu gweini ar adegau penodol drwy gydol y dydd gyda brecwast rhwng 8:00am a 10:00am, a oedd yn galluogi'r rhai hynny a oedd am aros yn eu gwely'n hwy i gael eu brecwast yn hwyrach. Roedd lluniaeth yn cael ei weini ganol y bore ac yn y prynhawn gyda dewis o fyrbrydau i'r bobl. At hynny, roedd lluniaeth ar gael drwy gydol y dydd. Dywedodd perthnasau wrthym, *'they find the things that people like to eat, for example my aunt likes cheese and biscuits not sweet things'* a *'they make sure that they drink enough'.* Gwelsom y bobl yn cael eu prif bryd amser cinio, lle y cynigwyd dewis iddynt. Cynigwyd dewis amgen i un person am ei fod wedi gofyn am fyrbryd ysgafn. Gwelsom nifer o'r bobl yn cael eu pryd yn y Bwthyn. Gan mai dim ond un gofalwr oedd yn gweithio yn y Bwthyn, roedd yn rhaid i'r bobl yr oedd angen cymorth arnynt aros am gymorth, a oedd yn golygu bod eu pryd wedi oeri. Trafodwyd hyn â'r rheolwr a ddywedodd wrthym fod hyn o ganlyniad i'r defnydd o'r staff ar y diwrnod. Gwelsom fod y cartref yn darparu ar gyfer deietau arbenigol a hynny hefyd wrth baratoi bwyd a diodydd. Roedd unrhyw alergeddau bwyd, hoff bethau a chas bethau'n cael eu cofnodi'n glir. Roedd

systemau ar waith ar gyfer storio, cofnodi a rhoi meddyginiaeth yn ddiogel. Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel mewn ystafelloedd penodedig dan glo, gyda thymereddau'r ystafelloedd yn cael eu cofnodi ac roedd cofnodion o feddyginiaeth nas defnyddiwyd yn cael ei dychwelyd i'r fferyllydd i'w gwaredu. Gwelsom fod aelod o'r staff wedi'i benodi i roi meddyginiaeth a gwelsom fod siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth yn cynnwys gwrthlofnodion y staff pan oedd presgripsiynau wedi'u hysgrifennu â llaw. Gwelsom ran o'r rownd meddyginiaeth lle y gwnaed ymdrech i ymgysylltu â'r person a rhoi meddyginiaeth yn ofalus heb ruthro.  Down i'r casgliad bod systemau ar waith ar gyfer diwallu anghenion iechyd ac anghenion deietegol y bobl.

Drwy ein harsylwadau ac wrth edrych o gwmpas y cartref, gwelsom dystiolaeth bod gweithgareddau'n cael eu cynnal. Roedd siop fach wedi cael ei chreu yn yr ardal fwyta i'r bobl ddewis eitemau fel losin, bisgedi, cardiau a lluniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod nosweithiau sinema yn cael eu trefnu, yn ogystal â'r gweithgareddau rheolaidd a ddarperir. Gwelsom fod ystafell fach a thawel yn cynnwys memorabilia megis pram, chwaraewr recordiau finyl a lluniau o fannau o ddiddordeb lleol. Gwelsom berson yn defnyddio'r pram. Dywedodd y staff wrthym nad oedd rhaglen ddyddiol/wythnosol o weithgareddau wedi'u cynllunio gan fod arferion dyddiol y preswylwyr yn anrhagweladwy ac yn gallu newid. Roedd yr ystafell weithgareddau sef 'y Bwthyn' yn darparu ardal ddynodedig i'r bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau domestig bob dydd, megis pobi a golchi dillad. Roedd aelod dynodedig o'r staff yn gweithio yn yr ardal a oedd yn cefnogi'r bobl gyda gweithgareddau amrywiol. Roedd perthynas un preswylydd wedi creu albwm o luniau teuluol er mwyn ysgogi atgofion. Dywedodd y staff wrthym ei fod yn cael ei ddefnyddio i ysgogi sgwrs a'i fod yn gwella llesiant y person. Mae hyn yn dangos bod y bobl wedi ymgartrefu, eu bod yn teimlo'n gyfforddus gyda'r staff a'u bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a diddordebau cymdeithasol sy'n cefnogi eu llesiant corfforol ac emosiynol.

## 3. Yr Amgylchedd

Mae'r cartref wedi'i leoli mewn ardal breswyl yng Nghaernarfon yn agos i amwynderau'r dref. Roedd digon o ardaloedd yn y cartref i'r bobl eistedd ac ardal ddiogel yn yr awyr agored i'r bobl eistedd gyda'i gilydd neu dreulio amser gyda'u hymwelwyr. Roedd yr ystafelloedd gwely a welsom yn cynnwys eitemau personol – ffotograffau, addurniadau ac eiddo personol. Roedd blychau atgofion wedi'u lleoli y tu allan i ystafelloedd gwely'r bobl er mwyn helpu'r preswylwyr i ddod o hyd i'w hystafelloedd. Roedd blychau atgofion gwag y tu allan i ystafelloedd gwely rhai o'r bobl. Drwy arsylwadau o gwmpas y cartref, gwelsom fod safonau cyffredinol yr amgylchedd yn dangos ôl traul. Roedd y dodrefn wedi treulio, roedd angen newid y llawr mewn mannau, roedd difrod i orchuddion rheiddiaduron a thraciau llenni, a gwelsom bapur wal blodeuog mewn un ystafell wely lle roedd dyn wedi bod yn byw ers sawl blwyddyn. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o drafodaethau â'r person na'i berthnasau yn ymwneud â décor yr ystafell wely. Roedd bin rhydlyd mewn un ystafell ymolchi. Gwelsom fod angen rhoi sylw i landeri y tu allan er mwyn cael gwared ar sbwriel a brigau. Rydym o'r farn bod y bobl yn byw mewn amgylchedd croesawgar sy'n diwallu eu hanghenion, ond gellid ei ddatblygu ymhellach.

Gellid cryfhau'r systemau sydd ar waith i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel, gyda gwiriadau diogelwch a chynnal a chadw gan gynnwys rhai trydanol, diogelwch tân, clefyd y llengfilwyr a thymereddau dŵr yn cael eu cynnal. Gwelwyd menig untro wedi'u gadael mewn mannau o gwmpas yr adeilad. Roedd chwistrelli gofal personol yn cael eu darparu,  ond, nid oeddem yn gallu gweld pryd roedd y poteli wedi cael eu hagor na beth oedd y dyddiad gwaredu argymelledig. Gwelwyd eli ataliol gyda dyddiad dod i ben ym mis Gorffennaf 2019 mewn un ystafell ymolchi gymunedol. Gwelsom hylif tynnu paent ewinedd mewn un ystafell wely a allai fod yn risg i iechyd y bobl petaent yn ei lyncu. Gwelsom hylif diheintio dwylo mewn pedair ardal benodol o gwmpas y cartref i ffwrdd o'r ardaloedd cymunedol. Gwelsom fod y cartref wedi cael sgôr o 5 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (5 yw'r sgôr uchaf). Roedd clychau galw o gwmpas y cartref gan gynnwys yn yr ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi. Dylid gwella'r prosesau iechyd a diogelwch sydd ar waith er mwyn hybu llesiant y bobl.

Mae trefniadau diogelwch ar waith sy'n sicrhau bod yr unigolion yn ddiogel heb amharu ar eu hawliau, eu preifatrwydd na'u hurddas. Roedd cofnodion gofal a chofnodion personél cyflogeion yn cael eu cadw'n ddiogel. Roedd gofyn i ymwelwyr â'r cartref gyflwyno eu hunain i'r staff a llofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Cafodd hyn ei gadarnhau wrth i ni gyrraedd pan ofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr. Caiff preifatrwydd a gwybodaeth bersonol y bobl eu diogelu'n dda a gallant fod yn hyderus eu bod yn ddiogel rhag dieithriaid yn dod i mewn i'r adeilad.

## 4. Arwain a Rheoli

Roedd nodau ac amcanion y gwasanaeth yn glir. Gwnaethom edrych ar y Datganiad o Ddiben, a oedd yn darparu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, ble a sut y caiff y gwasanaethau hyn eu darparu a'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Roedd y datganiad o ddiben hefyd yn cyfeirio at ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Roedd gan y gwasanaeth ganllaw ysgrifenedig i berthnasau a phreswylwyr. Gwelsom fod angen adolygu'r ddogfen, gan mai ym mis Mehefin 2018 yr adolygwyd y canllaw ysgrifenedig a ddarparwyd ddiwethaf ac roedd yn cynnwys adroddiad arolygu AGC a gyhoeddwyd ar 1 Awst 2017. Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir, ond gellid gwella'r wybodaeth hon.

Caiff y bobl eu cefnogi gan aelodau o staff sydd wedi mynd drwy broses recriwtio. Gwnaethom edrych ar gofnodion pum gweithiwr gofal a gwelsom eu bod yn cynnwys y gwiriadau perthnasol, gan gynnwys proses recriwtio gadarn. Roedd geirdaon a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu cadarnhau cyn cynnig swydd i'r staff. Mae cofnodion a gwiriadau o'r fath yn helpu i ddiogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r dystiolaeth hon yn dangos bod y rheolwyr yn hybu proses recriwtio yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Caiff llesiant a datblygiad y staff eu hystyried. Roedd y strwythur staffio yn sicrhau bod staff gofal yn gweithio ym mhob ardal ddynodedig yn y cartref. Roedd gweithiwr gofal ychwanegol ar gael i gynorthwyo ym mhob ardal yn ôl yr angen. Roedd hyfforddiant arbenigol ar ddementia wedi cael ei ddarparu ac roedd y rheolwr yn anelu i gael 100% o'r staff i gymryd rhan yn yr hyfforddiant 'dementia bus'. Nod yr hyfforddiant oedd rhoi profiad i bobl o sut y gallai fod i fyw gyda dementia a pha newidiadau syml y gellid eu gwneud i'w hymarfer a'r amgylchedd er mwyn gwella bywydau'r bobl sy'n byw gyda dementia. Roedd y staff hefyd wedi mynychu hyfforddiant gorfodol gan gynnwys codi a chario, meddyginiaeth, cymorth cyntaf a diogelwch tân. Gwelsom fod hyfforddiant diogelwch tân un aelod o'r staff wedi dod i ben ym mis Gorffennaf 2019. Gwnaethom nodi bod uwch-aelodau o'r staff yn mynychu hyfforddiant ar lefel reoli megis rheoli'n ddiogel, maeth a llesiant, a goruchwylio. Gwelsom fod y staff yn cael eu goruchwylio drwy arsylwadau a sesiynau goruchwylio un i un ffurfiol. Er bod sesiynau goruchwylio yn cael eu cynnal, gwelsom fod sesiynau goruchwylio rhai aelodau o'r staff yn hwyr. Gwnaeth y rheolwr gydnabod bod sesiynau goruchwylio rhai aelodau o'r staff yn hwyr, a nododd fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Ni welsom unrhyw gofnodion o arfarniadau blynyddol diweddar, ac roedd cofnodion un aelod o'r staff yn dangos mai ym mis Mawrth 2018 y cynhaliwyd ei arfarniad blynyddol diwethaf. Mae'r dystiolaeth hon yn dangos bod y bobl yn cael eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu staff sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol. Mae angen gwneud gwelliannau i'r broses oruchwylio ac arfarnu ffurfiol ar gyfer y staff.

Ar y cyfan, mae'r staff a'r adnoddau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Gwelwyd bod y rheolwr, y dirprwy reolwr a'r uwch-weithiwr gofal yn goruchwylio'r gwasanaeth a'u bod yn ymwybodol o anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i ddiogelu'r bobl a'r staff. Gwnaethom drafod adolygiad o ansawdd y cartref â'r rheolwr a ddywedodd wrthym fod yr unigolyn cyfrifol yn cynnal ymweliadau rheoleiddio fel sy'n ofynnol. Cynhaliwyd ymweliad diwethaf yr unigolyn cyfrifol ym mis Tachwedd 2019 ac roedd modd gweld yr adroddiad. Cynhaliodd yr unigolyn cyfrifol ymweliad i adolygu

ansawdd y gofal ym mis Ionawr 2020 a chyflwynwyd yr adroddiad i'r cartref ar ôl iddo gael ei gwblhau. Dywedodd y perthnasau a'r staff wrthym eu bod yn gallu siarad â'r rheolwr a'r staff a rhannu eu pryderon a chyfrannu at ddatblygiad y gwasanaeth. Roedd un holiadur staff a ddychwelwyd yn awgrymu y gellid gwella'r cyfarfodydd staff rheolaidd. Mae hyn yn dangos bod y rheolwyr yn sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff yn cyfrannu at ddatblygu a gwella'r gwasanaeth.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf o’r gwasanaeth ers iddo ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA).

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y canlynol:

Dylai cynlluniau personol gynnwys arferion a hoffterau personol, gan gynnwys gweithgareddau, hobïau a diddordebau a sut y caiff hyn ei ddarparu.

Dylid ystyried y ffordd y caiff y staff eu defnyddio yn ystod amseroedd bwyd yn ddyddiol – dylid trefnu bod y staff yn gweithio mewn ardaloedd lle mae angen cymorth.

Dylid cadw menig untro dan glo.

Dylid cadw eli ataliol rhagnodedig ac eitemau gofal personol yn ystafelloedd gwely'r preswylwyr
a dylid eu gwaredu yn unol â'r cyfarwyddiadau ar gyfer eu defnyddio.

Ni ddylai paent ewinedd a sylweddau peryglus personol eraill fod ar gael i'r bobl.

Dylai hylif diheintio gwrthfacterol sy'n sownd wrth y wal yn yr ardal gymunedol fod ar gael i'r preswylwyr, y staff ac ymwelwyr er mwyn lleihau'r risg o heintiau ymhellach.

Dylid cynnal archwiliad o'r gwaith cynnal a chadw cyffredinol mewn perthynas ag agweddau ffisegol ar yr adeilad a'r amgylchedd – gan gynnwys y llawr, y décor yn yr ystafelloedd gwely, y bin rhydlyd, y traciau llenni a'r rheiddiaduron.

Dylid darparu hyfforddiant gloywi cyn i gyfnod yr hyfforddiant blaenorol ddod i ben.

Dylid adolygu'r canllaw ysgrifenedig.

Dylid cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol ar gyfer pob aelod o'r staff.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws penodol a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Roedd yr arolygiad hwn yn rhan o adolygiad AGC o ganlyniadau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia mewn cartrefi gofal. Gwnaethom ymweld â'r cartref yn ddirybudd ar 21 Ionawr 2020 rhwng 9:45am a 6:15pm.

Ystyriwyd y rheoliadau canlynol fel rhan o'r arolygiad hwn:

- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom gyfarfod â'r bobl sy'n byw yn y cartref.
- Gwnaethom gynnal trafodaethau â'r rheolwr, y dirprwy reolwr a'r staff a oedd yn gweithio yn y cartref yn ystod yr ymweliad.
- Gwnaethom siarad â theuluoedd tri phreswylydd.
- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion. Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:
- Cofnodion gofal personol pedwar unigolyn, gan gynnwys asesiadau risg, cofnodion dyddiol a chynlluniau gofal;
- Cofnodion pum aelod o'r staff;
- Matrics hyfforddiant;
- Cofnodion meddyginiaeth.
- Arsylwadau cyffredinol yn ystod yr ymweliadau.
- Detholiad o archwiliadau iechyd a diogelwch.

- Gwnaethom adolygu'r Datganiad o Ddiben a'i gymharu â'r gwasanaeth a welsom ar waith. Mae'r Datganiad o Ddiben yn pennu'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth ac yn dangos y ffordd y bydd y gwasanaeth yn hyrwyddo'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y bobl y mae'n gofalu amdanynt, yn enwedig o ran y lefelau staffio a hyfforddiant ac ati.
- Aethom o gwmpas yr adeilad a gwelsom y mwyafrif o'r ystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol.
- Rhoddwyd holiaduron mewn perthynas ag Adolygiad AGC o ganlyniadau i bobl sy'n byw gyda dementia mewn cartrefi gofal i'r staff, y perthnasau a'r gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref.
- Gwnaethom ystyried gwybodaeth ar ein cronfa ddata mewn perthynas â hysbysiadau, pryderon, diogelu a'r adroddiad arolygu diwethaf.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr y Gwasanaeth** | **Cyngor Gwynedd** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Aled Davies** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **23** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Hwn oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers iddo ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (RISCA) 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **23/01/2020** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/03/2020

Nid oedd gan unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio statws Agored.